WLGA • CLILC

CYDWEITHIO YN ERBYN troseddau bywyd gwyllt
PARTNERSHIP FOR ACTION AGAINST wildlife crime

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

RHESTR WIRIO BIOAMRYWIAETH AR GYFER Y GWASANAETH HEDDLU

Egwyddorion Sylfaenol

- Mae bioamrywiaeth yn cynnwys pob math o anifeiliaid, planhigion a chynefinoedd. Yn gyffredinol, bydd ymglymiad yr heddlu ym maes troseddau yn erbyn bywyd gwyllt.
- Mater i'r Heddlu yn bennaf yw gorfodi'r gyfraith yn wyneb troseddau yn erbyn bywyd gwyllt, hynny gyda chymorth Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac aelodau eraill o Bartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru.
- Mae deddfwriaeth yn ymwneud â throseddau yn erbyn bywyd gwyllt yn cynnwys ystod eang o bwerau'r Heddlu ac yn aml yn cynnwys darpariaethau sy'n galw am gychwyn erlyniadau o fewn chwe mis wedi i dystiolaeth ddod yn hysbys i'r ymchwilwyr.

Canllawiau Arfer Gorau i Reolwyr Heddlu

- Sicrhau bod digon o amser ac adnoddau ar gael i gynnal ymchwiliadau i droseddau yn erbyn bywyd gwyllt, i adrodd am ddigwyddiadau a chyfrannu i'r Bartneriaeth Weithredu i Atal Troseddau yn erbyn Bywyd Gwyllt yng Nghymru.
- Penodi o leiaf yr hyn sy'n cyfateb i un swyddog troseddau yn erbyn bywyd gwyllt i bob heddlu, ar sail amser llawn, yn unol ag argymhellion adroddiad Pwyllgor Archwilio Amgylcheddol Tŷ'r Cyffredin ar droseddau yn erbyn bywyd gwyllt.
- Sicrhau fod pob Swyddog Heddlu Troseddau yn erbyn Bywyd Gwyllt yn mynychu cwrs sylfaen achrededig gan ACPO ac yn dilyn hyfforddiant pellach yn ôl yr angen.
- Sicrhau bod o leiaf un swyddog wedi'i hyfforddi hyd at safon briodol, i'w galluogi i gynnal ymchwiliadau cymhleth i droseddau'n ymwneud â masnachu anghyfreithlon mewn rhywogaethau mewn perygl trwy fynychu cwrs ar y cyd rhwng yr Heddlu, Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi a CITES, wedi'i achredu gan ACPO.
- Sicrhau fod gan bob swyddog ymwybyddiaeth o droseddau yn erbyn bywyd gwyllt.

Canllawiau i Gwnstabliaid Heddlu

Mae gan bob Cwnstabl Heddlu gyfrifoldeb cyfreithiol i fod ag ystyriaeth i fioamrywiaeth ym mhopeth maent yn ei wneud. Gellir dangos bod y ddyletswydd honno wedi'i chyflawni:

- trwy wybod pwy yw'r swyddogion troseddau yn erbyn bywyd gwyllt yn eich ardal
- trwy fod yn effro i'r posibilrwydd o droseddau ac ymchwilio iddynt yn unol â hynny.
- Trwy weithio'n agos â'r swyddog troseddau yn erbyn bywyd gwyllt yng nghyswllt digwyddiadau penodol.

Canllawiau Arfer Gorau ar gyfer Swyddogion Troseddau yn erbyn Bywyd Gwyllt
Rydych yn gyfrifol am sicrhau bod troseddau yn erbyn bywyd gwyllt yn cael ei ymchwilio mewn modd effeithiol a phroffesiynol ac am ehangu'r rhwydwaith o swyddogion troseddau yn erbyn bywyd gwyllt o fewn eich heddlu. Dylech:

- fod yn ymwybodol o'r blaenoriaethau Cenedlaethol a Rhanbarthol o ran troseddau yn erbyn bywyd gwyllt, fel y cytunwyd gyda'r Cydbwyllgor Cadwraeth Natur a Chyngor Cefn Gwlad Cymru.
- fod yn ymwybodol o Gynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol ac mewn cysylltiad â'r cydgysylltwyr lleol. Dylid rhoi adroddiadau yn ôl yr angen ar weithredoedd sy'n syrthio ar yr Heddlu, ac wedi'u nodi o fewn Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Cenedlaethol.
- fod yn ymwybodol o'r erlynyddion a benodwyd gan Wasanaeth Erlyn y Goron i ystyried achosion yn ymwneud â throseddau yn erbyn bywyd gwyllt.
- fod yn ymwybodol o'r Datganiad o Fwriad ar y Cyd sydd rhwng ACPO a CCGC.
- gofnodi pob digwyddiad yn ymwneud â bywyd gwyllt trwy ddefnyddio lefel drydyddol y Safonau Cenedlaethol Cofnodi Digwyddiadau a ardystiwyd gan ACPO.

WLGA • CLILC

CYDWEITHIO YN ERBYN troseddau bywyd gwyllt
PARTNERSHIP FOR ACTION AGAINST wildlife crime

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

BIODIVERSITY CHECKLIST FOR THE POLICE SERVICE

Basic Principles

- Biodiversity includes all forms of animals, plants and habitats. Police involvement will generally be in the area of wildlife crime.
- Wildlife crime enforcement is primarily a matter for the Police with support being provided by the Countryside Council for Wales and other members of the Welsh Biodiversity Partnership.
- Legislation relating to wildlife crime contains a broad suite of Police powers and often contains provisions that require prosecutions to commence within six months of evidence coming to the knowledge of investigators.

Best Practice Guidance for Police Managers

- Ensure that sufficient time and resources are made available to conduct wildlife crime investigations, report incidents and contribute to the Partnership for Action against Wildlife Crime in Wales.
- Appoint at least the equivalent of one full time wildlife crime officer to each force in line with the recommendations of the House of Commons Environmental Audit Committee report of wildlife crime.
- Ensure that all Police Wildlife Crime Officers attend the ACPO accredited Police wildlife crime officer's foundation course and attend further training as required.
- Ensure that at least one officer has been trained to an appropriate standard to permit them to conduct complex investigations into offences relating to illegal trade in endangered species by attending the ACPO accredited joint Police/HMRC CITES course or equivalent.
- Ensure that all officers have an awareness of wildlife crime.

Guidance for Police Constables

Each Police Constable has a legal duty to have regard to biodiversity in all they do. The duty can be shown to have been discharged by:

- being aware of the identity of wildlife crime officers in your area.
- being alert to the possibility of offences and investigating accordingly.
- working closely with the wildlife crime officer regarding specific incidents.

Best Practice Guidance for Wildlife Crime Officers

You hold responsibility for ensuring that wildlife crime is effectively and professionally investigated and for enhancing the network of wildlife crime officers within force. You should:-

- be aware of National and Regional wildlife crime priorities as agreed with Joint Nature Conservation Committee and the Countryside Council for Wales.
- be aware of Local Biodiversity Action Plans and have contact with local co-ordinators. Actions falling to the Police identified within national Biodiversity Action Plans should be reported upon as required.
- be aware of prosecutors appointed by the Crown Prosecution Service to consider cases of wildlife crime.
- be aware of the Joint Statement of Intent existing between ACPO and the CCW.
- record all incidents relating to wildlife using the tertiary level of the National Standards of Incident Recording as endorsed by ACPO.